# Adroddiad Blynyddol Cynghorydd CBSP

**Y Cynghorydd Jane Gebbie** **Ward:Y Pîl**

## Plaid: Llafur

Mae'r adroddiad hwn yn nodi fy ngweithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben **30 Ebrill 2018** ac fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall. Barn y Cynghorydd yw'r farn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o reidrwydd yn adlewyrchu barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

**Rôl a Chyfrifoldebau**

Cefais fy ethol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynrychioli'r Pîl ar 4 Mai 2017. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o rolau yn y cyngor eleni gan gynnwys cael fy mhenodi i sawl pwyllgor.

Rwyf wedi cefnogi trigolion fy ward ar amrywiaeth o faterion ac rwyf wedi codi'n ffurfiol sawl ymholiad gan etholwyr gyda'r cyngor a sefydliadau eraill fel arfer mewn perthynas â phryderon gofal cymdeithasol, iechyd a thai. Mae hyn yn ychwanegol at fynd i'r afael yn anffurfiol â nifer o faterion eraill rydych wedi gofyn i mi eich helpu i'w datrys.

I'm galluogi i gyflawni fy rôl fel eich cynrychiolydd, rwyf wedi mynd i nifer o weithgareddau datblygu aelodau sydd wedi fy nghynorthwyo i sicrhau fy mod yn cynnal fy ngwybodaeth am faterion cenedlaethol a lleol sy'n effeithio ar y cyngor a'm ward.

Ceir rhagor o wybodaeth am fy **rolau, cyfrifoldebau a gweithgareddau** drwy ddilyn y ddolen hon.

**Gweithgarwch Etholaeth**

Braint eithriadol i mi yw cael fy ethol fel un o'ch tri aelod i ward y Pîl ac rydym yn gweithio'n galed i sicrhau bod y materion a godwch yn cael eu trin yn gyflym a chyda chanlyniad boddhaol, gan ddysgu sgiliau newydd wrth i mi wneud hynny yn ystod fy mlwyddyn etholedig gyntaf.

Rwy'n mynd i bob gweithgaredd cymunedol posibl os yw fy nyddiadur yn caniatáu hynny, gan fwynhau cyfarfod â thrigolion ifanc a hyd yn oed yn iau, a minnau'n llywodraethwr ysgol yn y Pîl a Chynffig, nid dim ond i fynychu cyfarfodydd pwyllgor ond hefyd ddigwyddiadau ysgol rwy'n cael fy ngwahodd iddynt.

Rwyf hefyd yn aelod etholedig sy'n cynrychioli'r gymuned ar Adfer Margam, ac er bod hyn yn achosi problemau yn sgil materion cyllid a chynllunio, mae'n parhau gyda disgwyliad y bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi'r caniatâd cynllunio ar gyfer y ffyrdd cyn bo hir, ond yn y cyfamser mae'r gwaith yn parhau er bod ychydig bach o oedi.

Rwy'n parhau i lobïo Heddlu De Cymru mewn perthynas â goryrru, pryderon parcio ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ac rwy'n mynd i gyfarfodydd cyngor cymuned i roi

adborth ynghylch pryderon a godwyd gan y gymuned ac yn datblygu materion eraill a'u cyflwyno i gyrff amrywiol ar eich rhan.
Mae gan Lafur dros y Pîl a Mynydd Cynffig dudalen Facebook weithgar sy'n rhannu gwybodaeth berthnasol ac mae'n ffordd arall o gysylltu a'ch aelodau etholedig.

Os oes unrhyw beth sydd ei angen arnoch mae croeso i chi gysylltu â ni.

**Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Rwy'n aelod gweithgar o bwyllgorau amrywiol sy'n gyfrifol am graffu ar wasanaethau cymdeithasol, iechyd, addysg, y gyllideb a deddfwriaeth i enwi ond ychydig, oherwydd bod fy nghyflogaeth bresennol a blaenorol wedi rhoi'r sgiliau i mi allu herio a chyfeirio modelau gwaith mewn cynllunio a darparu yn y dyfodol, gan gymryd rôl weithredol wrth gyflwyno ymatebion i ymgynghoriadau i lawer o bartneriaid, gan gynnwys Llywodraeth Cymru.

**Gweithgareddau/Materion Eraill**

Fel cynghorydd ac mewn bywyd bob dydd rwy'n cymryd gwir ddiddordeb yn yr agenda cydraddoldeb ac mae tegwch a chyfiawnder cymdeithasol yn bwysig iawn i mi. Rwy'n credu y dylai pawb gael yr un cyfle mewn bywyd ac rwyf wedi bod yn aelod o bwyllgor y cabinet ar gyfer pwyllgorau cydraddoldeb a rhianta a chefais fy ethol i'r swydd honno gan gyd-aelodau ar bwyllgorau craffu.

**Cynghorydd:Jane Gebbie** **Dyddiad: 30 Mai 2018**